## EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2022

**Rhif 145 – Ymgom Bl 6 ac iau (2 – 4 mewn nifer)**

**Detholiad gan Mali Williams wedi ei selio ar nofel 'Y Bancsi Bach' – Tudur Dylan Jones**

Urdd

**Cymeriadau:**

**Owen**: bachgen swil sydd a thalent tynnu llun.

**Kez** a **Braz**: merched ysgol cegog.

**Miss Smith**: athrawes gelf (gall y cymeriad yma fod yn athro Celf hefyd)

**Lleoliad**: Ystafell ddosbarth lle mae Clwb Celf yn cael ei gynnal dros amser cinio.

*(Kez a Braz wrthi'n tynnu llun a Miss Smith o gwmpas y lle yn brysur. Kez wedi gwneud coeden ond Braz yn sbloetsho paent ar hyd ei phapur hi. Owen fel petai o'n ceisio cael hyd i ddewrder i ddod i fewn i'r dosbarth)*

Owen: Tyd Owen….dim ond clwb celf ydi o.

*(cymryd anadl ddofn ac yn mynd i mewn)*

Kez: Sbia pwy sy 'ma Braz.

Braz: Helo Bancsi Bach!

*(Owen yn cerdded a'i ben i lawr ac yn eistedd o flaen darn o bapur. Miss Smith yn cerdded at Kez a Braz ac yn edrych ar eu lluniau. Yn gweiddi wrth weld un Braz)*

Miss Smith: O am lun bendigedig! Mae'r holl liwiau'n wych! Gwirioneddol wych!

*(Owen a Kez yn edrych yn angrhediniol gan fod yn llun yn edrych fel llanast)*

Miss Smith: Mae'r ffordd ry'ch chi wedi cyfuno cyflymder a theimlad yn rhoi ethos tri dimensiwn i'r gwaith, Branwen.

Owen: *(o dan ei wynt)* Branwen?!

Miss Smith: Mae o mor fynegiannol.

Braz: *(sibrwd)* Fyneg…be?

Kez: Dim syniad, ond mae o'n swnio'n dda!

*(Miss Smith yn cerdded i ffwrdd)*

Kez: 'Di o *so* ddim yn deg!

Braz: Ti ond yn *jealous* Kez.

Kez: Dwi *so* ddim. Ti'n meddwl bo' fi'n *jealous* o rywun sy'n fflicio paent?

Braz: Dim jyst fflicio paent i rwla rwla ydy o. Mae'n rhaid i ti wybod lle mae fflicio'r paent. Ti jyst ddim yn dallt.

Kez: Ond na'th hi ddim hyd yn oed *edrych* ar un fi.

*(Kez rwan yn estyn am y paent ac yn sbloetsho dros ei llun hi)*

Braz: Be ti'n meddwl ti'n neud?

Kez: Fflicio paent. Be ti'n meddwl dwi'n neud?

Braz: Ond ma spots ar hyd *pencil case* Animal fi rwan.

Kez: Dim fi na'th hwnna. Ti na'th o pan o't ti'n fflicio paent!

Braz: Dwi *so* ddim wedi neud.

Kez: Ti *so* wedi.

Braz: Dwi ddim hyd yn oed yn iwsho pinc. A be ydy'r sbot yna ond pinc?!

(*Miss Smith yn dechrau crwydro yn ei hol. Owen wedi bod yn edrych yn freuddwydiol ar ei bapur.)*

Miss Smith: Owen, nid cyfle i ddiogi yw'r Clwb Celf. Rwyt ti wedi eistedd fan'na fel llo ers i ti ddod i mewn, a does dim byd ar y papur!

*(Miss Smith yn edrych heibio Owen ac yn sylwi ar waith Kez)*

Miss Smith: Gogoniant! Y goeden! Mae wedi ei thrawsnewid! Mae na argyhoeddiad yn eich llun chi. Argyhoeddiad, brwdfrydedd a mynegiant, Ceinwen!

Owen: Ceinwen?!

*(Miss Smith yn symud ymlaen eto)*

Kez: Trawsnewid…brwdfrydedd… argy… argyhodd…

Owen: Argyhoeddiad.

Kez: Dyna ti… argyhoeddiad!

Braz: Be' mae hynny'n feddwl?

Kez: *Blincin grêt!*

*(Owen yn syllu ar ei ddarn papur fel petai mewn breuddwyd braidd ac yn siarad wrtho'i hun)*

Owen: Y llygaid, dechrau gyda'r llygaid. Fedrwch chi ddeud cymaint am berson wrth edrych tua'r llygaid. Nid edrych *arnyn* nhw, ond edrych *ynddyn* nhw… fel ffenestri i'r galon.

(*Owen yn cychwyn tynnu llun ar y papur. Kez a Braz yn dechrau chwarae o gwmpas gyda rwber, yn ei fflicio a'i daflu o gwmpas y dosbarth.)*

Kez: Ti'n cael pwynt am daro Miss Smith ar ei chefn, dau bwynt am hitio ei phen-ôl hi na tri phwynt am hitio ei phen.

Braz: Reit barod…. (*taflu y rwber at Miss Smith*) Ies… pen-ôl, *get in*, dau bwynt!

Kez: Fi rwan… (*yn anelu a thaflu)*

Braz: Cefn…un pwynt.

Kez: Pen-ôl hi odd hwna. Dau bwynt!

Braz: Odd hwna *so* ddim ar pen-ôl hi.

Kez: Ma pen-ôl hi'n masif, fedri di ddim methu fo.

*(Miss Smith ddim yn ymwybodol fod hyn i gyd yn mynd ymlaen tu ol i'w chefn)*

Miss Smith: Owen, wyt ti wedi llwyddo i gael unrhywbeth ar y papur 'na erbyn hyn?

(*Owen yn troi ei bapur o gwmpas yn swil i'w ddangos. Mae llun anhygoel arno o fachgen ifanc. Mae'n dal ac yn gryf gydag ysgwyddau llydan a chyhyrau mawr. Mae ganddo graith i lawr ei foch, tatŵs ar bob braich a golwg fygythiol ar ei wyneb.)*

Kez: Ha! Be di hwna… *self-portrait*?

Braz: O pwy?

Kez: Y fo…Bancsi Bach.. y prat!

Miss Smith: Reit, mae'n amser dechrau tacluso rwan. Owen os wyt ti am barhau i ddod i'r Clwb Celf dwi ddim am weld pethau plentynaidd fel hyn (*cyfeirio at ei lun)* Mae gwaith Ceinwen a Branwen yn fan hyn yn esiampl wych o aeddfedrwydd ac argyhoeddiad. Da iawn ferched!

(*Owen yn mynd a'i lun ac yn cerdded allan*)

**Y DIWEDD**